# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai, 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. W.J. Chorlton, E.G. Davies, Richard A. Dew,<br>K.P. Hughes, T.Ll. Hughes, W.T. Hughes, Eric Jones,<br>Raymond Jones, T.H. Jones, C. McGregor, Bryan Owen,<br>R.L. Owen, G.O. Parry MBE, J. Arwel Roberts,<br>G.W. Roberts OBE, Elwyn Schofield, H.W. Thomas. |
| **WRTH LAW**: | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid),<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Datblygu Economaidd),<br>Swyddog Datblygu (Prosiectau) (TJ),<br>Cyfrifydd Trysorlys/Cyfalaf (BD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Mri. Lewis Davies, Jim Evans, Keith Evans, C.Ll. Everett,<br>D.R. Hughes, Mrs. Fflur M. Hughes, R.Ll. Hughes, W.I. Hughes,<br>O. Glyn Jones, R. Dylan Jones, A.M. Jones, Bob Parry OBE,<br>Eric Roberts, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Neb. |

---

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr. Elwyn Schofield yn Gadeirydd.

Diolchodd i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr. G.W. Roberts OBE yn Is-Gadeirydd.

**3. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**4. COFNODION**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 22 Tachwedd, 2011.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 6 Mawrth, 2012.

**5. ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL**

- **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

  Cadarnhawyd a mabwysiadwyd, fel bo'r angen, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

  - Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 2 Rhagfyr, 2011.
  - Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 7 Chwefror, 2012.
  - Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 14 Chwefror, 2012.

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 22 Mai, 2012.

Nododd y Cadeirydd bod gwerth y gronfa wedi disgyn dros £1m yn ystod y chwarter diwethaf. Dywedwyd bod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol fod yn wyliadwrus mewn perthynas â'r incwm meincnod o'r gronfa.

**6. CANLYNIADAU A RAGAMCANWYD AM 2011/2012 – Y GYLLIDEB 2012/2013**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod rhaid wrth yr adroddiad hwn i dreiglo dyraniadau cyllido 2012/13 ymlaen ac i ddirprwyo cyllid i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Mae'n adlewyrchu'r canlyniad drafft am 2011/12 ac mae wedi ei ddiweddaru o'r fersiwn gylchredwyd yn Ebrill, a oedd yn seiliedig ar ganlyniad a ragamcanwyd.

Roedd y strategaeth ariannol newydd a fabwysiadwyd yn hwyr yn 2009 yn penderfynu, i raddau helaeth, beth fyddai'r gyllideb flynyddol yn 2010/11. Cafodd ei diweddaru ymhellach ar gyfer 2011/12 ac mae ynddi ddau newid sylweddol :-

- Yr ymrwymiad o £300k a wnaed i Ran 2 y Cynllun Datblygu Gwledig a oedd yn gwbl gyson â'r Strategaeth ond yr oedd cyfrif amdano fel gwariant yn 2010/11 er ei fod, mewn gwirionedd, yn cael ei dynnu i lawr dros nifer o flynyddoedd;

- Y grant mawr i Glwb Codi Pwysau Caergybi a ddyfarnwyd ac a dalwyd yn 2011/12.

Mae'r canlyniad a ragamcenir ar gyfer 2011/12 yn wahanol i'r strategaeth a'r gyllideb. Mae'r incwm buddsoddi wedi bod yn uwch na'r hyn a ragwelwyd; grant Clwb Codi Pwysau Caergybi a phroffil diwygiedig o ran y cyllid cyfatebol CDG a dynnir i lawr.

Mae'r canlyniad a ragamcenir (oedd wedi'i grynhoi yn yr adroddiad) yn golygu bod arian wrth gefn refeniw ar 31 Mawrth 2012 yn ddiffyg o £81k (amcangyfrif). Mae hyn yn dangos diffyg am y tro cyntaf ond caiff ei ddatgan ar ôl dileu £300k, sef gwerth llawn cyfnod 2 y Cynllun Datblygu Gwledig sydd i'w dynnu i lawr dros nifer o flynyddoedd. Diwygiwyd y polisi arian wrth gefn y llynedd i ganiatáu i falans yr arian wrth gefn refeniw fod mewn dyled, ar yr amod bod y rhagamcanion o ran llif arian yn caniatáu dychwelyd i warged dros y cyfnod y bydd y cyllid adfywio'n cael ei dynnu i lawr. Roedd y bwriadau wario o gronfeydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Nodwyd bod rhagamcanion yn parhau i ganiatáu'r ymrwymiad o £66k tuag at neuaddau pentref fel yn y diweddariad i strategaeth Ebrill 2011 ynghyd â hyd at £50k tuag at Gyfleusterau Cymunedol a man grantiau. Mae'r rhagamcanion hyn yn dangos fod y cynnydd rhagamcanedig dros y cyfnod hyd at ddiwedd 2013/14 yn dangos hyblygrwydd o £91k ar y grantiau arfaethedig a'r costau gweinyddol cyfredol. Oni fydd modd cynyddu incwm ar y graddfeydd hyn, mae risg y bydd yr hyblygrwydd £91k yn lleihau. Bydd angen parhau i adolygu incwm a rhoi sylw i unrhyw ddiffyg wrth baratoi cyllideb 2013/14. Nodwyd bod y Rheolwyr Buddsoddi, yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, wedi rhoddi sicrwydd bod difidendau yn dal i gael eu cadw.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- O gofnodion y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau : roedd rhai o'r cronfeydd yn talu difidend ar ffurf unedau buddsoddi. Ystyriwyd y dylai difidendau gael eu talu fel incwm a'u hailfuddsoddi mewn cyfalaf a fydd yn cynyddu'r arian wrth gefn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y gellid edrych ar hyn yn ystod y flwyddyn.
- Mynegwyd pryderon bod y rhan fwyaf o'r incwm buddsoddi'n cael ei wario ar brosiectau mawr. Dywedwyd bod cymunedau bychan yn cael anhawster i gynnal canolfannau cymuned yn eu hardaloedd. Nodwyd bod y gyllideb i ganolfannau cymuned wedi cynyddu 10% yn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd rhai o'r Aelodau bod angen i gymunedau llai weithio ar y cyd.

**PENDERFYNWYD**

- **Cytuno ar y diweddariad i'r strategaeth a'r polisi arian wrth gefn fel yr oedd wedi ei amlinellu;**
- **Mabwysiadu cyllideb am 2012/13 fel a ganlyn :-**

| | |
|---|---|
| **Oriel Ynys Môn** | **£230k** |
| **Neuaddau Pentref** | **£ 66k** |
| **Cyfleusterau Cymunedol a Grantiau Bychan** | **£ 50k** |

- **I ddirprwyo i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol y swm o £50k i ddelio â cheisiadau blynyddol yn unol â'r meini prawf newydd.**

## 7. GWEINYDDU BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd yr Ysgrifennydd bod gweinyddu ymddiriedolaeth elusennol o faint Ymddiriedolaeth Elusennol yn gosod baich mawr ar weinyddiaeth y Cyngor ei hun, yn arbennig yn ystod cyfnod o gynilo a chyfyngiadau ariannol pan fo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, heb yna unrhyw drefniant i godi tâl am hynny. Ynghyd â'r materion sy'n ymwneud â chapasiti, fe ddaeth yn gynyddol amlwg, yn arbennig yng nghyd-destun gwerthu asedau, nad yw'r Cyngor yn gallu darparu'r lefel o arbenigedd a gwybodaeth y mae'r Ymddiriedolaeth ei hangen er mwyn gallu ymgymryd â'r busnes mewn ffordd effeithlon. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ym maes cyngor a chefnogaeth gyfreithiol.

Roedd yna, fodd bynnag, gost i'r trefniadau arfaethedig fyddai'n lleihau'r cyllid sydd ar gael i'w ddyrannu i bwrpasau elusennol.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Mynegodd yr Aelodau yn gryf – oherwydd ansefydlogrwydd llywodraeth leol trwy Gymru gyfan a'r posibilrwydd y byddai awdurdodau lleol yn cael eu huno, mae angen i Gyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth Elusennol sicrhau'r Ymddiriedolaeth i bobl Ynys Môn yn y dyfodol.
- Roedd rhai aelodau'n credu bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi methu â chymryd mantais o'r cyfleon mewn blynyddoedd diweddar i werthu asedau a hynny oherwydd bod gweinyddiad yr Ymddiriedolaeth yn rhywbeth mewnol.
- Roedd rhai o'r aelodau'n bryderus bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn ystyried allanoli'r gwaith o weinyddu'r Ymddiriedolaeth gan y gallai hynny fod yn gostus ac y gallai gael effaith ar yr arian a ddyrennir i gymunedau lleol.
- Dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod y mater hwn.

**PENDERFYNWYD y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen, gyda'r gynrychiolaeth ganlynol o'r Ymddiriedolaeth Elusennol, i ystyried gwahanol opsiynau a hefyd yr achos busnes dros sefydlu trefniadau gweinyddol newydd ac i adrodd yn ôl gyda'r canfyddiadau fel y gallai cyfarfod llawn o'r Ymddiriedolaeth Elusennol wneud penderfyniad :-**

**Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

**Y Mri. E. G. Davies, W. T. Hughes, Eric Jones, T. H. Jones, Hefin W. Thomas.**

## 8. CYNLLUN CYLLIDEB CYFRANOGIAD

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd yr Ysgrifennydd bod Comisiynwyr Môn wedi cynnal trafodaethau hefo'r Uchel Siryf ar y nod o wella hunan-les cymunedau drwy gynyddu cyfranogiad cyhoeddus yn y broses o ystyried anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau. Byddai'r cynllun peilot a fwriedir yn darparu swm o tua £30k dyweder i gymuned ac wedyn yn cynnal trafodaeth hefo dinasyddion y gymuned honno ynghylch sut y dylid blaenoriaethu i gwariant ar brosiectau cymunedol fyddai'n rhoi'r budd mwyaf iddynt.
Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Ystyriwyd y gallai cynllun o'r fath osod cynsail;

- Mae'r Ymddiriedolaeth Elusennol eisoes yn cefnogi cymunedau lleol trwy ei Bwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais.**

**EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT**

**9. TIR RHOSGOCH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd yr Ysgrifennydd bod yr Ymddiriedolaeth a'I Phwyllgor Buddsoddi a Chontractau wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o gael gwared ar y tir y mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen arno yn Rhosgoch. Yn unol â'r gyfraith, rhaid gwerthu tiroedd mewn modd sydd wedi ei reoli'n briodol er budd yr elusen a rhaid i'r ymddiriedolwyr gael y pris gorau y gellir ei gael yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth :-

- Gael ac ystyried adroddiad ysgrifenedig gan Syrfëwr Cymwys. Argymhellir yn gryf bod hynny'n cael ei wneud rŵan er mwyn pennu ffiniau o ran yr hyn sy'n bosib neu'n debygol o lunio rhan o'r cynllun marchnata a'r telerau ar gyfer cael gwared ar y safle;

- Dilyn cyngor y Syrfëwr Cymwys ynghylch marchnata'r safle. Argymhellir yn gryf bod y Syrfëwr Cymwys yn cynghori ar farchnata'r safle er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn y sefyllfa orau bosib i gyflawni eu dyletswyddau pan ddaw'n amser cytuno ar y telerau ar gyfer cael gwared ar y tir;

- Yn y man, penderfynu eu bod yn rhesymol fodlon maï'r telerau arfaethedig sy'n dilyn o'r ddwy dasg uchod yw'r rhai gorau y gellir eu cael yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

Nododd yr Ysgrifennydd bod rhai cwmnïau wedi mynegi diddordeb yn y safle a dywedodd bod Swyddogion yr Ymddiriedolaeth wedi dweud bod angen cael cystadleuaeth deg ar gyfer y posibilrwydd o werthu'r tir ar y farchnad agored. Nododd y cafwyd peth gwahaniaeth barn rhwng y Swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Buddsoddi ynglŷn â'r ffordd ymlaen gyda rhai materion oedd ynghlwm wrth y mater hwn. Dywedodd eu bod bellach wedi dod i gytundeb y dylid penodi syrfëwr cymwys drwy'r Prisiwr Dosbarth ac y dylai'r holl broses gael ei throsglwyddo i'r person hwnnw i arwain ac i gefnogi'r Ymddiriedolaeth Elusennol gyda'r gwaith o werthu'r tir yn Rhosgoch. Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd am ei sylwadau a nododd bod cytundeb bellach rhwng Aelodau'r Pwyllgor Buddsoddi a Swyddogion yr Ymddiriedolaeth ac y dylid gofyn i'r Prisiwr Dosbarth, fel rhywun annibynnol edrych beth oedd y manteision posibl o werthu safle Rhosgoch gyda'r partïon oedd â diddordeb ac wedi hynny gyflwyno ei argymhellion i'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD :-**

- **Cyflogi Syrfëwr Cymwys/Prisiwr Dosbarth i weithredu gyda gwerthu'r safle, yn cynnwys rôl Cyfreithiwr cymwys, derbyn cymorth cyfreithiol a marchnata. Pe bai'n bosibl, i gyflogi'r arbenigedd sydd ei angen trwy benodiad 'siop-un-stop'.**
- **I ystyried yr angen i gyflogi Rheolwr Prosiect i gydlynu gweithgareddau rhwng yr arbenigwyr a fydd wedi eu penodi, swyddogion yr Ymddiriedolaeth a'r Ymddiriedolwyr.**
- **I ryddhau cyllideb o hyd at £120k ar gyfer yr ymarfer hwn.**

**MR. ELWYN SCHOFIELD**

**CADEIRYDD**